# Pyeloneffritis (aciwt): Rhagnodi gwrthficrobaidd

12 Hydref 2018

## *Haint ar yr arennau: oes angen gwrthfiotigau arna i?*

Caiff haint ar yr arennau ei achosi gan facteria sy'n symud o'r bledren i'r aren fel arfer. Gall effeithio ar un aren neu'r ddwy ohonynt. Mae'r symptomau yn cynnwys cyfog, teimlo'n dwymynol neu'n wan ac yn flinedig, a phoen yn y cefn neu'r ochr. Er ei fod yn boenus, mae haint ar yr arennau fel arfer yn gwella o fewn ar ôl tua phythefnos â gwrthfiotigau.

Dylech gael cynnig gwrthfiotegau ar gyfer haint yr arennau oherwydd:

- Caiff yr haint ei achosi gan facteria.
- Gall niweidio'r aren os na chaiff ei drin.

Gallwch hefyd helpu eich symptomau mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy gymryd cyffur lleddfu poen megis paracetamol neu baracetamol a chodin ar gyfer unrhyw un dros 12 oed. Mae hefyd yn bwysig yfed digon o hylifau er mwyn sicrhau eich bod wedi'ch hydradu.

Dylai eich meddyg egluro y gall gwrthfiotigau achosi sgil-effeithiau, megis dolur rhydd a chyfog (teimlo'n sâl). Fodd bynnag, gall chwydu hefyd fod yn arwydd bod yr haint ar eich arennau yn gwaethygu. Dylech weld eich meddyg os na fyddwch yn dechrau teimlo'n well ar ôl dau ddiwrnod o ddechrau cymryd eich gwrthfiotigau, neu'n gynt os byddwch yn dechrau teimlo'n waeth.

Mae'n bosibl y bydd eich meddyg yn eich atgyfeirio at yr ysbyty os ydych yn feichiog, o dan 16 oed neu os ydych yn wynebu risg o gymhlethdodau.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Mae gwefan y GIG yn cynnwys mwy o wybodaeth am y canlynol:

- haint yr arennau
- gwrthfiotigau.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu gwybodaeth am pam y dylid defnyddio gwrthfiotigau yn gall.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllawiau hyn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holl argymhellion yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3125-5

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights